**Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen (CDLl) - 2022-2037**

# Safleoedd Ymgeisiol - Nodyn Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig Gorffennaf 2023

*This document is available in English*
*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

Mae CBS Torfaen wedi comisiynu AECOM i baratoi Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (GCI) ar gyfer pob cam o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen (2022-2037). Yn ôl Methodoleg Asesiad Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor (Mai 2023), bydd safleoedd ymgeisiol y canfyddir eu bod yn dderbyniol yn Asesiad Cam 2A y Cyngor, hefyd yn cael eu hasesu gan AECOM o dan y Fframwaith GCI arfaethedig ganlynol a'r Matrics Sgorio cysylltiedig; a ddarperir er eich gwybodaeth.

**Rhan o "Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig (GCI) ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Torfaen: Adroddiad Cwmpasu - Cyngor Torfaen - Gorffennaf 2023" AECOM**

**Tabl 13.1 Fframwaith GCI Arfaethedig**

| Thema GCI | Amcan GCI |
|---|---|
| Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth | Cadw, gwarchod a gwella buddion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn Nhorfaen ac o'i hamgylch. |
| Newid yn yr Hinsawdd | Lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni a defnyddio ffynonellau ynni carbon isel ac adnewyddadwy. |
| Poblogaeth a Chymunedau | Darparu nifer ddigonol o gartrefi fforddiadwy o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu'r anghenion a ganfuwyd. |
| | Gwella ansawdd y cynllunio i greu lleoedd gwych i bobl. |
| Economi a Chyflogaeth | Hyrwyddo twf economaidd a chynyddu cyfraniad economaidd yr ardal i Ddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gryfhau ac arallgyfeirio'r economi, hyrwyddo twristiaeth, gwella bywiogrwydd a dichonoldeb canol trefi a chynyddu ffyniant i bawb. |
| | Cynyddu lefelau cyflogaeth leol a sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu lledaenu, wrth wella cyrhaeddiad addysgol a chynyddu lefelau sgiliau |
| Iechyd a Lles | Gwella iechyd a lles y boblogaeth yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol, lles cymdeithasol a diogelwch cymunedol. |
| Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymunedol | Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. |

| Thema GCI | Amcan GCI |
|---|---|
| Yr Amgylchedd Hanesyddol | Cadw a gwella pwysigrwydd amgylchedd hanesyddol, asedau diwylliannol (yn cynnwys y defnydd o'r Gymraeg ac asedau treftadaeth a'u lleoliadau yn y Fwrdeistref Sirol. |
| Adnoddau Naturiol (Aer, Tir, Mwynau a Dŵr) | Nodi a dilyn unrhyw gyfleoedd i leihau, neu o leiaf sicrhau bod yna cyn lleied â phosibl o lygredd aer i'r boblogaeth. |
| | Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac adeiladau presennol er mwyn lleihau'r pwysau o ran datblygu meysydd glas a gwarchod tir amaethyddol gradd uwch lle bo hynny'n bosibl. |
| | Hyrwyddo'r economi gylchol trwy leihau'r gwastraff a gynhyrchir a gwneud y mwyaf o ailddefnyddio ac ailgylchu, gan sicrhau y defnyddir adnoddau naturiol a darperir cyflenwad digonol o fwynau. |
| | Cadw gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. |
| Y Dirwedd | Amddiffyn a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd. |
| Trafnidiaeth a Symudiad | Gwella mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sydd angen ar bawb, wrth gefnogi gostwng defnyddio trafnidiaeth breifat trwy hyrwyddo teithio llesol ac annog newid moddol i drafnidiaeth gynaliadwy, a gwella mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau digidol o ansawdd uchel. |

**GCI: Matrics Sgorio Safleoedd Ymgeisiol**

| | |
|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol fawr |
| + | Mân effaith cadarnhaol |
| 0 | Niwtral / Dim effaith |
| ? | Effaith ansicr |
| - | Mân effaith negyddol |
| -- | Effaith negyddol fawr |